COMPACT
MERTHYR TUDFUL

Partneriaeth rhwng
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful
Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf
a'r Trydydd Sector ym Merthyr Tudful

Rhagair

Ein gweledigaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw iddi fod yn lle gwych i fyw, i weithio ac i ddysgu.

Gellir diwallu anghenion a gobeithion pobl os yw sectorau'n barod i adeiladu partneriaethau cryf, iach a bywiog i wella gwasanaethau.

Mae'r Compact hwn yn adeiladu ar y Compact gwreiddiol rhwng y sector gwirfoddol a'r awdurdod lleol ym Merthyr Tudful a gyhoeddwyd yn 2000, a'r Compact rhwng y sector gwirfoddol a'r awdurdod iechyd lleol yn 2001.

Caiff yr holl bartneriaid eu hannog i gefnogi egwyddorion ac arferion y Compact, ac i gyfranogi yn natblygiad y Codau Ymarfer cysylltiedig.

Rydym yn hynod falch o gyflwyno Compact Merthyr Tudful ar ei newydd wedd fel dull o adeiladu ar y berthynas weithio bresennol a gwella'r bartneriaeth er budd Merthyr Tudful.

Llofnodwyd

Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful

Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cadeirydd, Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf

Cadeirydd, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Beth yw Compact Merthyr Tudful?

- Cytundeb partneriaeth rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus ym Merthyr Tudful fel y'u cynrychiolir gan yr awdurdod lleol a chymuned y GIG[1] ym Merthyr Tudful yw'r Compact.

- Mae'n darparu fframwaith, ac yn y fframwaith hwnnw bydd datblygu nodau ac amcanion sy'n gyffredin, parch y naill at y llall a chyd-ddealltwriaeth yn cynorthwyo gallu partneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i wella ansawdd bywyd i bobl y Fwrdeistref Sirol.

- Ysgrifennwyd y Compact yn ysbryd prosiect blaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru *Creu'r Cysylltiadau*. Mae *Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar Draws Ffiniau (2006)* yn nodi'r modd y bwriada Llywodraeth y Cynulliad fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Adolygiad Beecham[2]. Mae'n galw am drefniadau mwy uchelgeisiol ar gyfer cynnwys dinasyddion a'u cael i gyfranogi mewn dylunio, cyflwyno a gwella'r holl wasanaethau cyhoeddus. Mae'n pennu rôl y byrddau gwasanaethau lleol ac yn cyflwyno cytundebau gwasanaeth lleol. Mae Compact Merthyr Tudful yn gydnaws â'r cyfeiriad polisi hwn, ac mae'n tanategu'r berthynas rhwng y sector statudol lleol a'r trydydd sector, ac yn croesawu'r cysyniad o ddatblygu "ethos gwasanaeth cyhoeddus" yn hytrach nag "ethos sector cyhoeddus" er budd y cwsmer a'r cyhoedd yn y pen draw.

- Bwriad y Compact yw arwain y broses gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n ymdrin â materion proses yn hytrach na sylwedd, h.y. y ffordd

[1] Mae'r Gymuned GIG yn cyfeirio at Fwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful, Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf a Thîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Merthyr Tudful

[2] Roedd Adolygiad Beecham o Gyflwyno Gwasanaethau Lleol "Ar Draws Ffiniau (2006)" yn galw am newidiadau radical i'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio, eu dylunio a'u cyflwyno yng Nghymru, a mwy o gyfranogiad gan y trydydd sector mewn gwasanaethau cyhoeddus – o ran dod â phersbectif y dinesydd a her adeiladol i gynllunio a dylunio, ac o ran cyflawni fel rhan o economi gymysg o ddarparu.

y caiff cynlluniau eu gwneud a'r ffordd y gwneir penderfyniadau – yn hytrach na chynnwys y cynlluniau a'r penderfyniadau hynny.

- Mae'n ymdrin â sbectrwm cyfan gweithio mewn partneriaeth: o ymgynghori a chynnwys y gymuned, drwy gynrychiolaeth ar gyrff cynllunio a chyfranogi mewn rhwydweithiau, i ariannu, caffael a chontractio.

- Cyflwynwyd *Compact rhwng y Llywodraeth a'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru* ym 1998 gyntaf. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi atgyfnerthu'r fenter bolisi hon ac wedi sefydlu Cynllun y Sector Gwirfoddol a Chyngor Partneriaeth rhwng y Cynulliad a'r sector gwirfoddol.

- Yn 2000 cyhoeddwyd y *Compact Lleol* rhwng y Cyngor Bwrdeistref Sirol a'r sector gwirfoddol ym Merthyr Tudful. Ers hynny, mae Grŵp Cyswllt wedi bod yn gyfrifol am weithredu'r Compact.

- Yn 2001 cyhoeddwyd Compact rhwng Awdurdod Iechyd Bro Taf a'r sector gwirfoddol yn y rhanbarth.

- Mae'r Compact diwygiedig hwn wedi'i lunio ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, BILl Merthyr Tudful, Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, mewn ymgynghoriad ag amrywiaeth o sefydliadau a grwpiau'r trydydd sector lleol. Mae proses ddatblygu'r Compact yn adeiladu ar adolygu perfformiad y compact gwreiddiol ac ymgynghori â sefydliadau'r trydydd sector ynglŷn â'u barn mewn perthynas â chynnwys Compact diwygiedig.

- Y bwriad yw y bydd codau ymarfer drafft manylach yn dilyn, yn ymdrin â meysydd fel ariannu a chaffael, gwirfoddoli, ymgynghori a datblygu polisi.

- Fel cymorth i sicrhau eglurder, mae'r diffiniad o sefydliad trydydd sector/gwirfoddol wedi'i seilio ar arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (gweler Atodiad 1).

Beth yw Nod y Compact?

Nod y Compact yw datblygu'r bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful drwy ein helpu i;

- Gyfathrebu'n well â'n gilydd
- Deall a pharchu barn ein gilydd
- Gweithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol i gefnogi pobl Merthyr Tudful a datblygu gwasanaethau drwy gydweithio

Y bwriad yw gofyn i bartneriaid y sector cyhoeddus, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, yn ogystal â sefydliadau unigol y trydydd sector i gefnogi'r Compact yn ysgrifenedig.

Beth yw Gwerthoedd ac Egwyddorion y Compact?

Y nod a rennir gennym yw darparu gwasanaethau o safon i bobl Merthyr Tudful. Cydnabyddwn fod gwerth ychwanegol i weithio mewn partneriaeth tuag at nodau ac amcanion cyffredin. Bydd yr egwyddorion canlynol yn tanategu'r bartneriaeth hon:

- Mae gweithredu gwirfoddol a chyfranogiad cymunedol yn rhan hanfodol o gymdeithas gynhwysol a democrataidd, ac yn ychwanegu gwerth at ansawdd bywyd ym Merthyr Tudful. Cydnabyddir bod y trydydd sector yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Merthyr Tudful.

- Dylid parchu a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau a'r amrywiaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector

- Wrth ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau, mae gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector rolau gwahanol a chyflenwol

- Mae gan bob sector ei gyfrifoldebau a'i gyfyngiadau ei hun

- Dylid parchu annibyniaeth y trydydd sector

- Cydnabod a gwerthfawrogi'r rôl strategol bwysig y mae'r sector cyhoeddus yn ei chwarae mewn datblygu polisïau a gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â'r fframwaith cyfreithiol ac ariannol y gweithreda ynddo

- I hyrwyddo effeithiolrwydd y trydydd sector i'r eithaf, mae'n hanfodol buddsoddi yn ei seilwaith

- Dylai'r berthynas rhwng y sectorau fod yn un agored a pharchus, a dylai ddangos ymddiriedaeth

- Dylai pob sector ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth, tegwch mynediad, a chroesawu egwyddorion datblygu cynaliadwy

- Wrth weithio gyda'i gilydd dylai cyfraniadau o bob sector gael ystyriaeth gyfartal a pharch cyfartal

- Mae gan sefydliadau ym mhob sector yr hawl i gyfrannu at faterion sy'n effeithio arnynt, a'u herio

Gyda'i gilydd bydd y Compact yn...
(Amcanion Cyfrannol)

✓ Helpu i feithrin trydydd sector ffyniannus, amrywiol ac annibynnol ym Merthyr Tudful, gyda threfniadau ariannu a chontractio sydd:

  - yn glir ac yn hawdd eu deall;
  - yn deg ac yn gyson;
  - yn darparu ystod o drefniadau ariannu ar gyfer cyllid craidd, cyllid prosiectau a chyllid grantiau bach
  - cynnal baich gweinyddol sy'n gymesur â'r lefel ariannu;

- yn caniatáu ac yn annog blaengynllunio a threfniadau ariannu effeithiol.

✓ Helpu i sicrhau bod y trydydd sector nid yn unig yn cyfranogi mewn strwythurau cydweithio a phartneriaeth, ond ei fod hefyd yn cael dylanwad go iawn ar gynllunio a datblygu gwasanaethau lleol a mentrau cyhoeddus.

✓ Datblygu "Bwrdd Compact" yn ddull cyswllt sydd wedi'i integreiddio â phrosesau gwneud penderfyniadau'r sector cyhoeddus, a'r arena cyd-gynllunio ehangach. Bydd cynrychiolaeth o blith bartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar y Bwrdd.

✓ Helpu i sicrhau y cydnabyddir gwerth cymdeithasol gwirfoddoli yn ehangach ac yn fwy cynaliadwy, o ran datblygiad personol a datblygiad proffesiynol y gwasanaethau gwirfoddol a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.

✓ Hyrwyddo llywodraethu a rheolaeth effeithiol y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Bydd yn tanategu ymrwymiad cyfrannol at adeiladu gallu sefydliadau trydydd sector lle maent yn gyson â chyfeiriad strategol cyfrannol. Bydd hefyd yn annog pob sector i ddysgu o arfer gorau a cheisio sicrhau gwelliant parhaus wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

✓ Darparu gweithdrefn ystyrlon ac effeithiol ar gyfer datrys anghytundebau yn adeiladol ac yn agored. Corff monitro a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith partneriaid y Compact fydd yn gyfrifol am hyn. Er nodi nad yw'r trydydd sector yn gorff unedol, rhagwelir y bydd gan yr holl gynrychiolwyr awdurdod priodol i ganlyn unrhyw achosion ymddangosiadol o dorri'r compact yn eu sector eu hunain. Yn achos y partneriaid sector cyhoeddus, bydd yr awdurdod ganddynt i geisio datrysiad ar lefel uwch os bydd angen.

✓ Datblygu cynllun gweithredu cyfrannol i gyflawni amcanion y Compact a chynhyrchu adroddiad blynyddol ar sut mae

pethau’n dod yn eu blaenau i Fyrddau/Cyngor y sefydliadau sector cyhoeddus ac i’w ddosbarthu i sefydliadau'r trydydd sector.

Ymrwymiadau Partneriaid *(Mwy o Amcanion)*

- ✓ Bydd y sefydliadau sector cyhoeddus yn cefnogi datblygu, gweithredu a monitro'r Compact yn unol â'r weledigaeth a'r egwyddorion a gytunir. Bydd y gefnogaeth hon yn cynnwys:
    - sicrhau bod aelodau staff allweddol (e.e. swyddogion ariannu allanol, swyddogion caffael a chomisiynu, swyddogion cynllunio'r bartneriaeth) yn gallu cymryd rhan yn y gwaith hwn;
    - cadarnhau'r angen am godau ymarfer manwl i ymdrin â materion allweddol
    - bod yn barod i adolygu'u gweithdrefnau a'u hamserlenni eu hunain yng ngoleuni'r codau ymarfer hynny;
    - cadarnhau'r angen am weithdrefnau ar gyfer datrys anghytundebau; ac
    - adolygu gweithrediad y Compact yn flynyddol ar y cyd â'r trydydd sector.

- ✓ Bydd y trydydd sector yn cefnogi datblygu, gweithredu a monitro'r Compact yn unol â'r weledigaeth a'r egwyddorion a gytunir. Bydd y gefnogaeth hon yn cynnwys:
    - sicrhau bod aelodau staff allweddol yn gallu cymryd rhan yn y gwaith hwn;
    - cadarnhau'r angen am godau ymarfer manwl i ymdrin â materion allweddol;
    - bod yn barod i adolygu'u gweithdrefnau a'u hamserlenni eu hunain yng ngoleuni'r codau ymarfer hynny;
    - cadarnhau'r angen am weithdrefnau ar gyfer datrys anghytundebau; ac
    - adolygu gweithrediad y Compact yn flynyddol ar y cyd â'r sector cyhoeddus.

- ✓ Mae'r trydydd sector yn ymrwymo i gynnal safonau uchel o lywodraethu ac ymddygiad ac i fodloni rhwymedigaethau adrodd ac atebolrwydd i arianwyr a defnyddwyr. Bydd yn

cynnwys defnyddwyr lle bynnag y bydd modd, a gofalwyr lle y bo'n briodol, yn y gwaith o ddatblygu a rheoli gweithgareddau a gwasanaethau.

- ✓ Caiff asiantaethau yn y trydydd sector eu hannog i ddatblygu safonau ansawdd sy'n briodol i'r sefydliad, gan gynnwys hyrwyddo arfer gorau a chyfle cyfartal mewn gweithgareddau, cyflogaeth, cyfranogiad gwirfoddolwyr a darparu gwasanaethau.

- ✓ Ymrwyma'r trydydd sector i barchu a bod yn atebol i'r gyfraith. Yn achos elusennau, byddant yn dilyn y fframwaith cyfrifo ac arweiniad priodol arall fel a nodir gan y Comisiwn Elusennau.

Codau Ymarfer Arfaethedig

Pan fyddant wedi'u datblygu, bydd y Codau Ymarfer yn helpu i ddod ag egwyddorion y Compact i'n gwaith bob dydd a byddant yn darparu'r fframwaith i'r codau.

Caiff sefydliadau o'r ddau sector eu gwahodd i fabwysiadu'r Codau Ymarfer, ac fe'u hanogir i gyfranogi yn y gwaith datblygu parhaus.

1 Egwyddorion Cod – Ymgynghori a Gwerthuso Polisïau

1.1 Yn rhan annatod o ddatblygu prosiectau ac adolygu polisïau

Dylid ystyried ymgynghori ar ddechrau prosiect neu adolygiad polisi er mwyn sicrhau ei fod yn digwydd ar y cyfnod priodol yng nghylch y prosiect. Dylai'r dulliau a ddewisir, a llwyddiant y prosesau hyn, gael eu hadolygu a'u gwerthuso'n barhaus gydol oes y prosiect. Pan fo angen rhaid ystyried unrhyw weithdrefnau ymgynghori statudol.

1.2 Cael ei wneud gan ddefnyddio safonau cytunedig

Dylai ymgynghori rhwng partneriaid fod yn unol â safonau cytunedig. Dylai'r rhain gynnwys amserlenni diffiniedig (o leiaf wyth wythnos yn ddelfrydol), adroddiadau cryno, ac adborth clir ynghylch canlyniadau a'r penderfyniadau a wnaed.

1.3 Priodol i'r grwpiau targed

Dylid cynllunio'r ymgynghori i fod yn briodol ar gyfer y partneriaid yr ymgynghorir â hwy, o ran y dulliau sy'n cael eu defnyddio ac arddull y cyflwyno. Dylid ysgrifennu dogfennau ymgynghori mewn iaith glir ac esbonio termau technegol. Dylai pob methodoleg fod yn addas i'r diben a'r grŵp targed yr ymgynghorir ag ef. Lle bo'n briodol, dylid cyfieithu adroddiadau i'r Gymraeg neu fformatau eraill sy'n hygyrch i'w cynulleidfa, gan gynnwys y rheiny a

chanddynt anawsterau iaith neu anableddau corfforol a synhwyraidd. Rhaid rhoi ystyriaeth i gynnwys yn ystyrlon y grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol.

1.4 Dilys a thryloyw

Dylai unrhyw ymarferiad neu ddogfen ymgynghori bennu pa agweddau sy'n cael eu cyflwyno i gynnig sylwadau arnynt a pha agweddau na ellir mo'u newid, er mwyn galluogi partneriaid i ymateb yn briodol. Deellir na all partneriaid gael unrhyw effaith ar y penderfyniadau ar gyfer pob agwedd ar waith ei gilydd. Lle nad yw hyn yn bosib, dylai partneriaid nodi'n glir bob amser mai at ddibenion gwybodaeth yn unig yn hytrach nag ymgynghori y mae dogfen neu ddigwyddiad.

1.5 Wedi cael cyhoeddusrwydd ac yn hygyrch

Dylai partneriaid sicrhau bod cyhoeddusrwydd da yn cael ei roi i wybodaeth ac ymarferion ymgynghori sy'n berthnasol i waith partneriaid eraill. Dylai ymgynghoriadau a dogfennau cysylltiedig fod ar gael yn hawdd i grwpiau â phob lefel o adnoddau ac ar ffurf a fydd yn galluogi sefydliadau llai i ymateb.

1.6 Yn cael eu rhannu lle bo'n briodol

Dylai partneriaid weithio gyda'i gilydd i rannu'r adnoddau sydd ar gael i wneud gwaith ymgynghori lle bo'n briodol. Dylid archwilio'r potensial ar gyfer ymarferion ymgynghori ar y cyd er mwyn lleihau dyblygu.

1.7 "Y Safon Aur mewn Ymgynghori"

- Holwch ac edrychwch i weld a oes unrhyw un arall wedi gwneud gwaith ymgynghori gyda chanlyniadau y gallwch eu rhannu.
- Gwnewch yn siŵr y gall ymgynghori beri newid. Dylai fod yn ddeialog sy'n arwain at benderfyniadau, felly ymgynghorwch CYN gwneud penderfyniadau.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu digon o amser ar gyfer eich prosiect ymgynghori. Mae angen i chi ystyried amser ar gyfer cynllunio, cynnal, casglu ac ymateb i'ch gweithgareddau.
- Ceisiwch ddefnyddio dulliau ymgynghori a fydd yn golygu defnyddio'ch adnoddau yn y ffordd orau ac a fydd yn rhoi'r canlyniadau gorau i chi gan eich cynulleidfa darged.
- Ceisiwch wneud eich ymgynghori mor gynhwysol ag y bo modd, ond gochelwch rhag gor-ymgynghori â rhai grwpiau.
- Rhowch adborth bob amser i'r rheiny sydd wedi cyfranogi yn eich ymarferion ymgynghori.
- Trowch eich ymgynghori yn weithredu. Peidiwch â gadael gwaith ymgynghori 'ar y silff'.
- Rhannwch ganlyniadau eich gwaith gydag eraill.

2. Egwyddorion Cod – Ariannu, Caffael a Chomisiynu

2.1 Dilys a thryloyw

Bydd y cyfan yn agored ac yn dryloyw i'w gwneud hi'n haws cael gwybodaeth am y cyllid sydd ar gael. Bydd y partneriaid yn hyrwyddo mynediad teg at gyllid strategol, cyllid prosiectau a chyllid contractau.

Bydd penderfyniadau ynghylch caffael neu gomisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar egwyddorion yn ymwneud ag ansawdd a gwerth am arian, ac nid ar gost yn unig fyth.

2.2 Ymagwedd gorfforaethol

Bydd y sector cyhoeddus yn datblygu gweithdrefnau cyson ac ymagwedd ar y cyd at gefnogi'r trydydd sector. Byddant yn gweithredu ymagwedd gorfforaethol at ariannu sy'n gyson ac yn amserol, ac sy'n symleiddio gweithdrefnau ac yn lleihau dyblygu, tra'n sicrhau atebolrwydd am arian cyhoeddus.

2.3 Seilwaith a chynaladwyedd

Mae'r sector cyhoeddus yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn seilwaith sefydliadau'r trydydd sector. Mae'n cydnabod hefyd y bydd cyllid tymor hwy yn gwella cynaladwyedd ac yn galluogi blaengynllunio. Bydd y sector cyhoeddus yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i anghenion grwpiau cymunedol bychain drwy sicrhau mynediad at gymorth mewn nwyddau, grantiau bach, a chefnogi rôl Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful wrth ddarparu cymorth datblygu.

2.4 Adfer Cost Lawn

Mae'r sector cyhoeddus yn cydnabod egwyddor 'Adfer Cost Lawn'. Caiff ymagwedd ar y cyd ei chytuno at yr egwyddor adfer cost lawn a'i chymhwyso'n ymarferol h.y. sicrhau cyllid ar gyfer costau gorbenion cymesur yn ogystal â chostau uniongyrchol prosiectau.

Mae'r egwyddor hon yn cydnabod bod angen i sefydliadau trydydd sector adfer costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau, adnoddau dynol, archwilio, marchnata a chynllunio busnes.

2.5 Cymesuredd

Bydd ymagwedd ar y cyd ac ymagwedd gyson at fonitro a gwerthuso sy'n effeithiol ac yn gymesur â'r lefel ariannu.

2.6 Canlyniadau peidio ag ariannu

Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r effaith ar sefydliad trydydd sector a gaiff unrhyw benderfyniad i beidio ag ariannu, neu i dynnu arian yn ôl, cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol.

2.7 Penderfyniadau a thaliadau amserol

Bydd y sector cyhoeddus yn sicrhau y rhoddir hysbysiad digonol am benderfyniadau ariannu a bydd yn gwneud taliadau cyllid yn amserol yn amodol ar brosesau cyllidebol y sector cyhoeddus.

3. Egwyddorion Cod – Cynnwys Cymunedau, Partneriaethau a Rhwydweithiau

3.1 Sicrhau y caiff sefydliadau trydydd sector, wrth ddatblygu'u polisïau a'u gwasanaethau yn y sir, eu llywio gan ystod eang o wybodaeth, profiad ac arbenigedd

3.2 Sicrhau ymgynghori cyson, gwrando a gweithredu ar farn defnyddwyr gwasanaeth y sector cyhoeddus a'r trydydd sector

3.3 Bydd Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful yn ceisio sicrhau bod aelodau partneriaethau a rhwydweithiau yn gynrychiadol ac yn atebol i'w 'hetholaeth'

3.4 **'**Y Safonau Aur mewn Cynnwys Cymunedau'

- Gwerthfawrogi sgiliau, gwybodaeth ac ymrwymiad pobl leol.
- Datblygu perthynas weithio gyda chymunedau a sefydliadau cymunedol.
- Cefnogi staff a phobl leol i weithio gyda'i gilydd ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd (fel cymuned gyfan)
- Cynllunio ar gyfer newid gyda'r gymuned, a chydweithredu gyda'r gymuned.
- Gweithio gyda phobl yn y gymuned i ddatblygu a defnyddio fframweithiau ar gyfer gwerthuso.

4. Egwyddorion Cod - Gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli wedi'i ddisgrifio yn 'fynegiant pwysig o ddinasyddiaeth ac yn hanfodol i ddemocratiaeth. Mae'n golygu rhoi o'ch amser a'ch egni er budd cymdeithas a'r gymuned, a gall fod ar lawer ffurf. Ymgymerir â gwaith yn rhydd ac o ddewis, heb ymorol am fudd ariannol.'

4.1 Cefnogaeth i wirfoddolwyr

Mae angen fframwaith cefnogi effeithiol sydd ag adnoddau priodol ar sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr.

4.2 Cyfraniad gwirfoddolwyr

Cydnabyddir bod gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad mawr i ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Merthyr Tudful. Dylid gwerthfawrogi'r cyfraniad hwn a hyrwyddo proffil ac ethos gwirfoddoli.

4.3 Rhwystrau rhag gwirfoddoli

Dylid cydnabod yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag gwirfoddol, trwy ddatblygu gallu sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr i ymateb i anghenion newidiol gwirfoddolwyr.

4.4 Buddsoddi mewn gwirfoddoli

Caiff arfer gorau ar gyfer rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr, ac achredu gwirfoddoli, eu hannog.

4.5 Ymgynghori a chyfranogi

Mae cyfraniad gwirfoddolwyr wrth helpu i ddatblygu polisi cyhoeddus yn cael ei gydnabod a'i annog drwy eu cynnwys mewn prosesau ymgynghori ac ymgyrchu.

5. Egwyddorion Cod - Llywodraethu

5.1 Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a chanllawiau arfer gorau. Bydd y trydydd sector yn cynnal safonau llywodraethu ac ymddygiad uchel ac yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o ran adrodd ac atebolrwydd.

5.2 Bydd Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar gyfer ymddiriedolwyr fel dogfen enghreifftiol i sefydliadau trydydd sector ei hystyried

5.3 Bydd Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful yn darparu hyfforddiant i ymddiriedolwyr yn unol â'r safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer ymddiriedolaeth ar

- Egwyddorion llywodraethu
- Rolau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr
- Rolau swyddogion anrhydeddus
- Strwythurau byrddau a phwyllgorau
- Recriwtio a datblygu ymddiriedolwyr
- Gweithio gyda'r prif swyddog

Atodiad 1 - Diffiniadau

Trydydd Sector

Mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r term 'y trydydd sector'. Mae'n cydnabod na fydd pob sefydliad yn cytuno, ac y bydd gan sefydliadau unigol hawl berffaith i'w disgrifio'i hunain mewn unrhyw ffordd a ddewisant – fel elusen, sefydliad gwirfoddol, grŵp cymunedol, grŵp hunangymorth, corff anllywodraethol, menter gymdeithasol, busnes cymunedol, ac ati.

Ond yr hyn sydd yn gyffredin i bob un o'r rhain yw:
- Fe'u sefydlir yn wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis trefnu;
- Rhoddant ryw ffurf o fudd cymunedol neu gyhoeddus
- Caiff eu gwargedion, lle cynhyrchir y rhain, eu hailfuddsoddi yn y sefydliad neu er budd cymunedol neu gyhoeddus, ac ni chânt eu dosbarthu er elw preifat.

Mae'r nodweddion cyffredin hyn yn gryfach o lawer nag unrhyw wahaniaethau a all fodoli rhwng gwahanol fathau o sefydliadau, ac am y rheswm hwn mae'n ddefnyddiol mabwysiadu term a all gynnwys pob sefydliad sy'n rhannu'r nodweddion cyffredin hyn. Mae 'trydydd sector' yn gwneud hyn.

Wrth i sefydliadau statudol fabwysiadu'r term 'trydydd sector', bydd gofyn o hyd cynnal diffiniadau cyfredol mwy manwl gywir at ddibenion bod yn gymwys am gymorth grant neu fudd-daliadau eraill.

Diffiniad o 'sefydliad gwirfoddol'

1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y 'Cynllun y Trydydd Sector' yn rhestru'r meini prawf sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o fathau o sefydliadau gwirfoddol fel:

- annibyniaeth:

rhaid i sefydliad fod yn annibynnol o ran ei gyfansoddiad ac ni ddylai gael ei reoli'n uniongyrchol gan sefydliad gwneud elw na chan y wladwriaeth. Caiff sefydliad ei gydnabod yn sefydliad sy'n annibynnol ar y wladwriaeth lle bo mwyafrif o gyrff anstatudol, penodedigion neu gynrychiolwyr ar ei 'fwrdd ymddiriedolwyr' a mwyafrif o aelodau anstatudol.

- hunanlywodraethol:

rhaid i sefydliad fod â'i broses fewnol ei hun ar gyfer gwneud penderfyniadau;

- sefydliad nad yw'n dosbarthu elw a sefydliad di-fusnes yn bennaf:

rhaid i sefydliad beidio â gwneud taliadau (ac eithrio ar gyfer mân dreuliau rhesymol neu daliadau eraill a ganiateir gan y ddogfen lywodraethol e.e. am wasanaethau proffesiynol achlysurol neu am grantiau) i aelodau nac i ymddiriedolwyr;

- gwirfoddoliaeth:

rhaid i sefydliad gael budd oddi wrth fesur ystyrlon o ddyngarwch (e.e. rhoddion mewn nwyddau neu amser, gan gynnwys gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr na chânt eu talu, er enghraifft, ystyrir bod unrhyw sefydliad sydd ag o leiaf dri ymddiriedolwr sy'n rhoi o'u hamser yn cael budd i lefel ystyrlon);

- budd cyhoeddus:

byddai disgwyl bod sefydliad gwirfoddol yn gallu dangos bod ei amcanion a'i weithgareddau o fudd i'r cyhoedd ehangach a / neu ei fod yn sicrhau bod ei fanteision ar gael i grŵp mor eang o bobl ag y bo modd yn yr etholaeth a ddiffinnir gan ei amcanion a / neu ei fod yn gweithredu mewn ffyrdd sydd yn agored ac yn gynhwysol yn hytrach nag yn elitaidd ac yn gyfyngedig. Lle bo dogfen lywodraethol yn bod, dylai gynnwys cymal sy'n sicrhau, pan gaiff ei ddiddymu, bod yr asedau sy'n weddill yn cael eu hailddosbarthu i sefydliad(au) gwirfoddol tebyg.

2.1 Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys yn benodol:

- busnesau cymunedol – sefydliadau sy'n fusnesau go iawn sy'n masnachu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn cael eu rheoli gan y gymuned ac sydd o fudd uniongyrchol i'r gymuned;
- y mudiad tai gwirfoddol;
- ymddiriedolaethau elusennol di-aelodaeth;
- grwpiau hunangymorth / cyd-gymorth;
- sefydliadau cymunedol a lleol, cymdeithasau cymunedol, neuaddau pentref ac ati;
- grwpiau amgylcheddol;
- elusennau hyfforddi;
- cyrff cyfryngol;
- grwpiau cymorth i fenywod;
- sefydliadau'r celfyddydau;
- grwpiau amaethyddol â budd cymdeithasol ehangach;
- cymdeithasau elusennol, diwydiannol a darbodus;
- grwpiau chwaraeon â budd cymunedol / cymdeithasol;
- sefydliadau crefyddol â budd cymdeithasol.

2.2 Maent yn eithrio'n benodol:
- pleidiau gwleidyddol;
- prifysgolion;
- sefydliadau addysg bellach;
- ysgolion annibynnol elusennol ac ysgolion a gynhelir â grant;
- undebau llafur;
- clybiau a chymdeithasau chwaraeon heb fudd cyhoeddus;
- cymdeithasau busnes ac asiantaethau menter lleol;
- mwyafrif helaeth y cymdeithasau proffesiynol;
- ymddiriedolaethau GIG;
- llawer o'r prif amgueddfeydd;
- cyrff cwango a chyrff cyhoeddus a noddir gan y llywodraeth;
- sefydliadau crefyddol heb fudd cymdeithasol ehangach.

3 Amcangyfrifir bod 400 o grwpiau trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn amrywio o grwpiau hunangymorth arbenigol bach yn cael eu cynnal gan ddefnyddwyr, at elusennau cenedlaethol.

- Gallant weithredu ar lefel genedlaethol, sirol, neu gymdogaeth, pob un ohonynt yn tueddu at feysydd arbenigol penodol.

- Mae rhai sefydliadau trydydd sector yn darparu gwasanaethau uniongyrchol (e.e. grwpiau chwarae, tai anghenion arbennig), tra bo sefydliadau eraill yn darparu cyngor, gwybodaeth, cwnsela a chefnogaeth, a bydd rhai hefyd yn darparu gwasanaethau eiriol gwerthfawr.

- Maent yn bodoli am fod pobl yn gweld angen ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau newid, neu wasanaeth, er budd y gymuned.

- Bydd gan bob un gorff llywodraethol neu gorff rheoli o ryw fath. Cyfeirir at y grŵp hwn mewn amrywiaeth o ffyrdd, e.e. pwyllgor rheoli neu bwyllgor gwaith, cyngor, bwrdd ymddiriedolwyr.

- Er bod llawer o sefydliadau trydydd sector yn hunangyllidol a heb ddim cyswllt cyson â'r sector statudol, yn codi'r holl arian y mae ei angen arnynt yn uniongyrchol oddi wrth y cyhoedd drwy ddigwyddiadau codi arian, rhoddion, ac apeliadau cyhoeddus; mae sefydliadau eraill yn ceisio nawdd a chymorth gan gymysgedd o ffynonellau gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector elusennol.